

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.3 Polisi gwirfoddoli enghreifftiol



Os ydych yn cynnwys gwirfoddolwyr yng ngwaith eich mudiad, mae'n bwysig ichi gael polisi gwirfoddoli. Mae polisi o'r fath yn gallu rhoi fframwaith i'ch mudiad ar gyfer creu rhaglen wirfoddoli. Amcan polisi gwirfoddoli yw cydlynu'r holl bolisiau a gweithdrefnau gwahanol sy'n effeithio ar wirfoddoli, er enghraifft, recriwtio, treuliau, iechyd a diogelwch ac yn y blaen. Bydd hefyd yn eich helpu i ddiffinio rôl y gwirfoddolwyr yn y mudiad, a sut gallant ddisgwyl cael eu trin.

Dylid newid manylion y polisi gwirfoddoli enghreifftiol hwn i gymryd sylw o'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd gan eich mudiad.

Polisi gwirfoddoli enghreifftiol

Rhagymadrodd

Mae'r polisi hwn yn ceisio dangos yr egwyddorion ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr yng ngwaith <Enw'r mudiad>. Cadarnhawyd y polisi hwn gan <enw'r pwyllgor rheoli> ar <dyddiad> a chaiff ei adolygu <pa mor aml> i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gwaith y gwirfoddolwyr a <enw'r mudiad>.

Ymrwymiad

Mae <Enw'r mudiad> yn cydnabod hawl pobl i gymryd rhan ym mywyd eu cymunedau drwy wirfoddoli. Mae hefyd yn cydnabod bod gwirfoddolwyr yn

cyfrannu mewn llawer dull a modd, bod eu cyfraniad yn unigryw, a'i fod yn gallu dod â budd i ddefnyddwyr gwasanaethau, staff, cymunedau lleol ac i'r gwirfoddolwyr eu hun. Mae <Enw'r mudiad> yn gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr, ac mae wedi ymrwymo i weithio mewn ffyrdd sy'n hybu, yn hyrwyddo ac yn datblygu gwaith drwy wirfoddoli.

Diffiniad

Mae gwirfoddoli'n agwedd bwysig ar ddinasyddiaeth ac yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth. Mae gwirfoddolwyr yn bobl sydd, heb dâl ac o'u gwirfodd, yn rhoi o'u hamser, eu hegni a'u sgiliau er lles pobl yn y gymuned.

Awgrym ar gyfer datganiad o werthoedd ac egwyddorion

Mae <Enw'r mudiad>:

- yn cydnabod y rhan bwysig sydd gan wirfoddolwyr yng ngwaith <Enw'r mudiad>, a'u cyfraniad pwysig a gwerthfawr i wead y gymuned leol.
- yn cydnabod cyfraniad unigryw gwirfoddolwyr i fywyd cymunedau, defnyddwyr gwasanaethau a staff cyflogedig ac i fywyd y gwirfoddolwyr eu hun.

- yn ceisio defnyddio sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gwirfoddolwyr mewn modd a fydd yn bodloni anghenion y gwirfoddolwyr ac anghenion y mudiad.
- yn cydnabod bod gwaith gwirfoddolwyr yn ategu'r rôl a gyflawnir gan staff cyflogedig.

Cyfrifoldebau

- Mae aelod staff neu wirfoddolwr wedi'i ddynodi ar gyfer pob gwirfoddolwr i gynnig cyngor ac arweiniad i helpu'r gwirfoddolwr i gyflawni ei dasgau'n effeithiol. Dywedir wrth wirfoddolwyr â phwy y dylent gysylltu i gael cymorth a goruchwyliaeth.
- Mae'r rheolwr gwirfoddolwyr penodedig neu'r aelod staff dynodedig <Enw> yn gyfrifol am ddatblygu gweithgareddau gwirfoddol yn y mudiad.

Recriwtio a dethol

- Mae <Enw'r mudiad> wedi ymrwymo i egwyddor cyfle cyfartal ac mae'n credu y dylai cyfleoedd i wirfoddoli fod yn agored i bawb beth bynnag fo'u hoed, rhyw, ethnigrwydd, gallu, crefydd a chredoau gwleidyddol. Bydd unigolion sy'n ymgeisio i fod yn wirfoddolwyr yn cael eu penodi'n unol â gweithdrefn dethol y mudiad.
- Bydd cyfleoedd i wirfoddoli'n cael eu hysbysebu'n eang mewn mannau sy'n hygyrch i bob aelod o'r gymuned.
- Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu dethol yn ôl eu haddasrwydd i gyflawni'r dasg gwirfoddoli, gan baru eu sgiliau, eu doniau a'u diddordebau ag anghenion y mudiad.

- Bydd gwirfoddolwyr a ystyrir yn anaddas i gyflawni tasg benodol yn cael cynnig gwaith gwirfoddol arall yn y mudiad neu'n cael eu hatgyfeirio i'w canolfan gwirfoddolwyr agosaf.
- Gofynnir i'r holl wirfoddolwyr roi enw dau ganolwr, a bydd yn ofynnol gwneud gwiriad o gofnodion troseddol os yw'r swydd yn golygu y byddant yn gweithio gyda phlant neu bobl sy'n agored i niwed. Byddant yn cael eu gwahodd hefyd i gyfweliad anffurfiol.
- Bydd gwirfoddolwyr yn cael disgrifiad tasg. Bydd hwn yn cael ei baratoi drwy gysylltu â'r un sy'n gyfrifol am reoli gwirfoddolwyr.

Hyfforddiant a datblygiad personol

- Bydd yr holl wirfoddolwyr newydd yn cael eu croesawu i'r mudiad a dylid gwneud trefniadau i'w sefydlu.
- Bydd <Enw'r mudiad> yn gyfrifol am sicrhau bod y gwirfoddolwr wedi'i baratoi'n briodol ar gyfer y gwaith a bod trefniadau ar waith i'w gefnogi a'i hyfforddi.
- Ymgynghorir â gwirfoddolwyr, staff a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn datblygu cyfleoedd ychwanegol i wirfoddoli.
- Bydd hyfforddiant ar gael ar 'reoli gwirfoddolwyr' i'r rhai sy'n gyfrifol am waith gwirfoddolwyr.

Cefnogaeth, goruchwyliaeth a gwobrwyon

- Bydd gwirfoddolwyr yn cael cefnogaeth a goruchwyliaeth reolaidd. Bydd hyn yn galluogi'r gwirfoddolwr a'r goruchwylwr i nodi, monitro a gwerthuso'r gwaith, cydnabod cyflawniadau, a nodi anghenion hyfforddi'r unigolyn. Bydd gwirfoddolwyr hefyd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd tîm lle gallant fynegi eu barn.
- Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu talu am eu holl dreuliau parod. Bydd y pwyllgor rheoli'n cytuno ar y gyfradd ad-dalu ac yn ei hadolygu bob blwyddyn.
- Trefnir digwyddiadau lle gellir cydnabod cyfraniadau gwirfoddolwyr yn ffurfiol.

Datrys anghydfodau

- Mae <Enw'r mudiad> yn ceisio trin yr holl wirfoddolwyr yn deg. Mae <Yr un sy'n rheoli gwirfoddolwyr> yn gyfrifol am ddelio â phroblemau fel y byddant yn codi. Mae'r rheolwr gwirfoddolwyr yn gyfrifol am drafod anawsterau sy'n ymwneud ag ymddygiad y gwirfoddolwr neu gwynion.

Hawliau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr

Mae <Enw'r mudiad> yn credu bod hawl gan wirfoddolwyr i:

- wybod beth a ddisgwylir ganddynt
- cael llinellau cefnogi a goruchwyllo sydd wedi'u nodi'n glir
- cael eu gwerthfawrogi
- cael amgylchedd diogel i weithio
- bod ag yswiriant ar eu cyfer
- gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau
- cael tâl am eu treuliau
- cael eu hyfforddi
- bod yn rhydd oddi wrth wahaniaethu
- cael cyfleodd ar gyfer datblygiad personol

Mae <Enw'r mudiad> yn disgwyl i wirfoddolwyr:

- fod yn ddibynadwy
- bod yn onest
- parchu cyfrinachedd
- gwneud y gorau o gyfleodd i gael hyfforddiant a chefnogaeth
- cyflawni tasgau mewn modd sy'n adlewyrchu nodau'r mudiad

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 10/04/2007



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk